

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU****ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFU****Gorchymyn Ymgwymerwyr Dr (Gwerthoedd Ardrethol)****(Cymru) 1999****Cefndir**

Mae'r rheoliadau hyn yn dilyn yn uniongyrchol o Reoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 a chyfeirir y Pwyllgor at yr adroddiad ar y rhain ystyriwyd yn y cyfarfod ar 16 Tachwedd 1999.

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhagnodi gwerthoedd ardrethol y busnesau sy'n ymddangos yn y Rhestr Ardrethu Canolog (fel y crybwyllwyd eisoes, yn bennaf y rheiny sy'n perthyn i ymgwymeriadau cyfleustodau cyhoeddus).

Mae paragraff 3(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad i osod o'r neilltu (drwy orchymyn) y rheolau arferol a'r prisiadau ac, yn eu lle, ragnodi rheolau eraill ar gyfer penderfynu ar werth ardrethol dosbarthiadau o hereditamentau, neu ar gyfer rhagnodi gwerthoedd ar gyfer hereditamentau sy'n ymddangos ar y Rhestr Ardrethu Canolog.

Mae hereditamentau cyflenwi dr glân y cwmnïau dr yn ymddangos ar hyn o bryd ar y Rhestr Ardrethu Canolog i Gymru yn rhinwedd Rhan 6 a Rheoliad 5(1) o Reoliadau Rhestri Ardrethu Canolog 1994 (OS 1994/3121). Rhagnodir gwerth ardrethol yr hereditamentau hynny yng Ngorchymyn Ymgwymerwyr Dr (Gwerthoedd Ardrethol) 1994 (OS 1994/3285) (fel y'u diwygiwyd).

Rhagnododd y rheoliadau hyn werth ardrethol yr hereditamentau o 1995 i 2000.

Bydd y cwmnïau dr yn parhau i ymddangos yn y Rhestr Ardrethu Canolog ar gyfer 2000 ymlaen mewn perthynas â'u hereditamentau cyflenwi dr glân. Felly mae'r gorchymyn hwn yn rhagnodi gwerth ardrethol yr hereditamentau hynny ar gyfer y blynyddoedd 2000 – 2005 gan ddefnyddio'r un darpariaethau ag a ddefnyddiwyd yng ngorchymyn 1994 ac eithrio y bydd y gwerthoedd rhagnodedig ar gyfer y flwyddyn 2000/2001 yn rhai newydd. Mae'r gorchymyn yn gosod gwerth ar gyfer y flwyddyn 2000/2001 ac yna mae'n darparu rheolau ar gyfer rhagnodi gwerthoedd yn y blynyddoedd wedyn.

Mae'r rheolau hyn (o'r enw y fformwla safonol) yn darparu ar gyfer addasu'r gwerth ardrethol a ragnodir ar gyfer 2000/2001 yn unol â newidiadau i ffactor perthnasol, sef yn achos dr, cyfaint y dr a

roddir i mewn i'r system. Os bydd cyfaint y dr yn newid, yn ystod unrhyw flwyddyn, uwchlaw neu islaw trothwy o 2%, addasir y gwerth ardrethol yn unol â'r newid yn y dr. Enw'r addasiad yw'r ffactor ailgyfrif (gweler erthygl 6 a 7).

Bwriedir i erthygl 2(3) ymdopi â'r newid enwau sy'n digwydd yn rheolaidd yn y diwydiant dr. Yn yr un modd, bwriedir i erthyglau 8, 9 a 10 i ymdrin â sefyllfaoedd pan fydd cwmnïau dr yn uno. Yn ymarferol, mewn sefyllfa o'r fath, byddai un cwmni dr yn cymryd asedau cwmni arall drosodd ac mae erthyglau 8, 9 a 10 yn caniatáu i'r swyddog prisio adio'r ddau werth ardrethol a fuasai'n ymddangos yn y Rhestr Ardrethu Canolog heb aildrefnu er mwyn rhoi gwerth ardrethol newydd ar gyfer y cwmni dr newydd.

## **Rheol Sefydlog 11.5**

Mae nifer o faterion drafftio sy'n haeddu sylw'r Pwyllgor:

1. Nid yw pennawd yr offeryn statudol yn cynnwys y cyfeiriad arferol at y dyddiadau "gwneud" a "dod i rym".

### **2. Dehongli – Erthygl 2**

Ni ymddengys fod diffiniad "dosbarth ar hereditamentau" yn cytuno â thestun y diffiniad ei hun. Yn yr erthygl ddehongli cyfeirir at "ddosbarth ar hereditamentau" yn yr unigol, ond yng ngweddill y gorchymyn, cyfeirir yn erthygl 5 at "pob dosbarth ar hereditamentau", yn erthygl 7 (2) at "ddosbarth ar hereditamentau", ac yn erthygl 7(3) at "unrhyw ddosbarth ar hereditamentau". Cymhlethir hyn ymhellach drwy gyfeirio at "dosbarthiadau o hereditamentau" yn erthygl 10. Os yw'n wir bod cyfeirio o fewn y gorchymyn hwn at fwy nag un dosbarth ar hereditament, yna dylid diwygio'r erthygl ddehongli yn unol â hynny.

### **3. Y Ffactor ailgyfrif – Dehongli – Erthygl 6**

Mae anghysondeb yn y cyfieithiad Cymraeg yn erthygl 6(2). Cyfieithwyd "supplying in bulk" yn "swmp-gyflenwad" yn is-baragraff (a), ond yn is-baragraff (b) estynnwyd hwn i "swmp-gyflenwi mewn crynswth" sy'n golygu'n llythrennol "bulk-supplied in bulk" yn Saesneg. Dylai adran berthnasol is-baragraff (b) ddarllen naill ai ".. wedi'i swmp-gyflenwi" neu "wedi'i gyflenwi mewn crynswth...".

## **4 Llofnod**

Nid oes cymal llofnod.

## **Sylwadau ar y Rheoliadau**

### **1. Y Nodyn Esboniadol**

Cyfyd pwynt bach ym mharagraff 1 o'r nodyn esboniadol. Mae'r frawddeg olaf ond un yn y testun Cymraeg yn cyfeirio at weithredoedd yr Ysgrifennydd Gwladol fel ei weithredoedd ef, ond mae'r frawddeg Saesneg gyfatebol mewn termau mwy cyffredinol.

Ar ben hynny, mae anghysondeb pellach rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y trydydd paragraff. Mae problem debyg i'r un y cyfeiriwyd ati uchod wrth gyfieithu "with effect from" a dylid cywiro hyn. Ymhellach, er mwyn sicrhau eglurder a thebygrwydd o ran pwyslais dylid symud y geiriau "yn *effeithiol* o 1 Ebrill 2000 ymlaen" fel eu bod yn dilyn yr ymadrodd "yn diddymu".

Ond at ei gilydd mae'r nodyn esboniadol yn enghraifft dda o'r hyn y dylid ei gynnwys o ran cefndir i orchmynion a rheoliadau.

### **2. Dehongli – Erthygl 2**

Cyfieithwyd "class of hereditaments" yn "dosbarth ar hereditamentau". O gyfieithu hyn yn ôl i'r Saesneg, ceir "class on hereditaments" ac nid ymddengys fod hyn yn gwneud unrhyw synnwyr. Awgrymir felly y byddai "dosbarth hereditamentau" ar ei ben ei hun yn fwy addas.

Mae anghysondeb rhwng y Saesneg a'r Gymraeg yn y diffiniad o "y fformwla safonol". Dylid rhoi'r gair "ble" yn lle "ac" ar ôl " T + U" er mwyn bod yn gyson. Ar ben hynny, dylid symud y cyfieithiad ieithyddol gyferbyn h.y. "the standard formula" a "y fformwla safonol" i lawr llinell fel nad yw'n ffurfio rhan o is-baragraff (b).

### **3. Diddymiadau ac Eithriadau – Erthygl 4**

Mae eto fân anghysondeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn erthygl 4(1). Yn gyntaf, defnyddiwyd "diddymu'n weithredol" ar gyfer "revoked with effect". Cyfieithiad llythrennol "yn weithredol" yw "operational from". Byddai'r cyfieithiad llythrennol "yn effeithiol" yn fwy addas. Yn llai arwyddocaol, cyfieithwyd "applicable to Wales" yn "berthnasol i Gymru" sy'n golygu "as it relates to Wales" yn llythrennol yn Saesneg. Er mwyn bod yn gyson dylid defnyddio "yn gymwys i Gymru" oherwydd dyma'r ymadrodd a ddefnyddiwyd ar gyfer "applicable" nid yn unig yn y gorchymyn hwn ond yn holl is-ddeddfwriaeth y Cynulliad hyd yn hyn.

### **4. Ffactorau ailgyfrif – Erthygl 7**

Mae camgymeriad printio sylweddol yn erthygl 7 oherwydd bod y fformwla T (y-Y/1.5y) wedi cael ei symud o erthygl 7(2) i ganol erthygl 7(1). Oherwydd hyn mae'n amlwg nad yw'r erthygl yn gwneud synnwyr fel mae'n sefyll ar hyn o bryd. Ond yr ydym yn deall fod hyn yn gamgymeriad a wnaed gan

yr argraffwyr ac nid yw i'w weld ar y drafft a baratowyd gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol sydd o flaen y Pwyllgor.

## 5. Cymhwyso – Erthygl 9

Unwaith eto mae anghysondeb rhwng y Saesneg yn erthygl 9 a'r cyfieithiad o "the rateable value (as a whole) of the Welsh hereditaments". Cyfieithiwyd "as a whole" i'r Gymraeg yn "cyfan" nad yw ond yn golygu "whole". Nid yw hyn yn adlewyrchu'r ystyr yn gywir a gellid ei ddehongli fel petai'n darllen "the rateable value of the whole of the Welsh hereditaments", sydd ychydig yn wahanol. Dylid diwygio "cyfan" i "yn ei gyfanrwydd" neu "fel cyfanwaith".

## 6 Penderfynu ar Werthoedd Ardrethol – Erthygl 10

Unwaith eto mae mân anghysondeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y Saesneg ceir "the rateable value...shall be an amount equal to...", ond ystyr y cyfieithiad Cymraeg i bob pwrpas yw "the rateable value....must be an amount equal to...". Ond sylweddolir bod hyn yn fân wahaniaeth ac ni fydd o angenrheidrwydd yn newid yr ystyr cyfreithiol.

7. Yn ogystal mae nifer o wallau argraffu a mân wallau drafftio(gwallau gan yr argraffwyr yn bennaf) y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor atynt:
  - a. Nid yw rhifau pob erthygl yn dilyn ffurf gyson, gyda rhai mewn teip du ac eraill mewn teip arferol unwaith eto camgymeriad ar ran yr argraffwyr ydy hyn)
  - b. Nid yw trefn y diffiniadau o fewn erthygl 2 o'r cymal dehongli yn dilyn y fformat y cytunwyd arno. Yn lle bod y diffiniadau yn nhrefn yr wyddor yn y ddwy iaith, mae'r Saesneg yn dilyn y Gymraeg. Yr ydym yn deall fod hyn eto yn wall ar ran yr argraffwyr a'i fod wedi'i gywiro erbyn hyn.
  - c. Mae bwlch rhwng y geiriau "mewn" a "perthynas" yn y diffiniad Cymraeg o'r fformwla safonol.

(ch) Mae atalnodau wedi cael eu mewnosod mewn nifer o fannau yn y testun Cymraeg (yn benodol yn erthygl 2(3), 4(2), 7(2) ac 8). Mae'r rhain yn ei gwneud yn haws darllen y testun, ond dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb.
  - d. Mae'r gair "dr" wedi cael ei gamdeipio mewn nifer o fannau – erthygl 6(1) (ddwywaith) ac yn yr Atodlen( eto mae hyn yn ymddangos ar y fersiwn brint yn unig)

(dd) Cyfieithwyd "the relevant amount of water" yn llythrennol fel "the relevant volume of water". Tybir nad yw hyn yn creu unrhyw anhawster wrth ddehongli.

- e. Camsillafwyd y gair "fformwla" yn erthygl 7(2).
- f. Nid yw'r diffiniadau yn erthygl 8 (yr ail gymal dehongli) yn cynnwys y croesgyfeiriad at y diffiniaid ieithyddol gyferbyn yn ôl y fformat y cytunwyd arno.
- ff. Ni chynhwyswyd rhif y gorchymyn o fewn yr Atodlen.

## **DYLAN HUGHES**

Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol

Y Pwyllgor Deddfau

18 Tachwedd 1999

LAD -01-01-032



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

1999 Rhif (Cy. )

**ARDRETHU, CYMRU**

Gorchymyn  
Ymgymrwyr Dr  
(Gwerthoedd  
Ardrethol) (Cymru)  
1999

NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r  
Gorchymyn)*

O ran yr hereditamentau annomestig sydd i'w dangos ar y rhestri ardrethu canolog i Gymru, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan baragraff 3(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ddarparu, drwy orchymyn, nad yw'r rheolau prisio arferol ar gyfer ardrethu a gynhwysir ym mharagraffau 2 i 2B o'r Atodlen honno yn gymwys i'r hereditamentau hynny. Yn lle hynny, caiff ddarparu y bydd gwerthoedd ardrethol y hereditamentau hynny fel y'u pennir yn y gorchymyn neu fel y penderfynir arnynt yn unol â rheolau rhagnodedig. Breiniwyd y pwerau hyn bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

1999 No. (W. )

**RATING, WALES**

The Water Undertakers (Rateable Values)  
(Wales) Order 1999

EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Under paragraph 3(2) of Schedule 6 to the Local Government Finance Act 1988, the Secretary of State may by order provide in the case of non-domestic hereditaments to be shown in the central rating lists for Wales that the normal rules of valuation for rating contained in paragraphs 2 to 2B of that Schedule are not to apply to such hereditaments. Instead their rateable values shall be such as are specified in the order or determined in accordance with prescribed rules. These powers are now vested in the National Assembly for Wales.

Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i hereditamentau cyflenwi dr a feddiennir (neu, os na feddiennir hwy, a berchnogir) gan ymgwymerwyr dr a enwir yn Rhan 6 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hynny gael eu dangos yn y rhestr ardrethu canolog i Gymru. Mae'r Gorchymyn hwn:

- yn darparu na fydd paragraffau 2 i 2b yn gymwys mewn perthynas â'r hereditamentau hynny ;
- yn rhagnodi'r gwerthoedd ar gyfer yr hereditamentau hynny am y flwyddyn ariannol 2000/01; ac
- yn rhagnodi'r rheolau y mae eu gwerthoedd ardrethol i gael eu penderfynu arnynt yn unol â hwy yn y blynyddoedd i ddod.

Mae erthygl 4(1) yn diddymu Gorchymyn Ymgwymerwyr Dr (Gwerthoedd Ardrethol) 1994, yn weithredol o 1 Ebrill 2000 ymlaen, i'r graddau ei fod yn gymwysadwy i Gymru. Ond mae'r darpariaethau hynny yn parhau i fod yn weithredol at y dibenion a grybwyllir yn erthygl 4(2).

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL**  
**CYMRU**

Water supply hereditaments occupied (or, if unoccupied, owned) by water undertakers named in Part 6 of the Schedule to the Central Rating List (Wales) Regulations 1999 are required by those Regulations to be shown in the central rating list for Wales. This Order

- provides that paragraphs 2 to 2B shall not apply in respect of such hereditaments,
- prescribes values for those hereditaments for the financial year 2000/01 and
- prescribes rules according to which their rateable values are to be determined in future years.

Article 4(1) revokes with effect from 1<sup>st</sup> April 2000 the Water Undertakers (Rateable Values) Order 1994 in so far as it is applicable to Wales. These provisions shall however, continue to have effect for the purposes mentioned in article 4(2).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

1999 Rhif (Cy. )

**ARDRETHU, CYMRU**

Gorchymyn Ymgymerywr

Dr (Gwerthoedd Ardrethol)  
(Cymru) 1999

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988<sup>(a)</sup> a pharagraff 3(2) o Atodlen 6 iddi ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>(b)</sup>.*

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymgymerywr Dr (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 1999 a daw i rym ar y diwrnod ar ôl diwrnod ei wneud.

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

**Dehongli**

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn-

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

1999 No. (W. )

**RATING, WALES**

The Water Undertakers (Rateable Values)  
(Wales) Order 1999

*The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 140(4) and 143(1) and (2) of, and paragraph 3(2) of Schedule 6 to, the Local Government Finance Act 1988<sup>(a)</sup> and now vested in the National Assembly for Wales<sup>(b)</sup>.*

**Citation, commencement and application**

1.-(1) This Order may be cited as the Water Undertakers (Rateable Values) (Wales) Order 1999 and shall come into force on the day after the day on which it is made.

(2) This Order applies only in relation to Wales.

**Interpretation**

2.-(1) In this Order-

ystyr "blwyddyn" yw blwyddyn ariannol daladwy ("*chargeable financial year*");

ystyr "blwyddyn berthnasol" yw unrhyw flwyddyn y mae gwerth ardrethol i'w benderfynu arno yn unol â'r Gorchymyn hwn ac ystyr "blwyddyn flaenorol berthnasol" yw'r flwyddyn sy'n dod cyn blwyddyn berthnasol ("*relevant year*");

ystyr "dosbarth ar hereditamentau" yw'r hereditamentau sydd i'w dangos ar y rhestr ardrethu canolog i Gymru yn rhinwedd rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau Rhestr Ganolog a Rhan 6 o'r Atodlen iddynt ac a feddiennir gan y person dynodedig mewn perthynas â'r hereditamentau hynny ("*class of hereditaments*");

Ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("*the Act*");

ystyr "ffactor ailgyfrif" mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau yw'r ffactor y penderfynir arno mewn perthynas â'r dosbarth hwnnw yn unol ag erthygl 7 ("*recalculation factor*");

"the Act" means the Local Government Finance Act 1988 ("*y Ddeddf*");

"Central List Regulations" means the Central Rating List (Wales) Regulations 1999<sup>(c)</sup> ("*Rheoliadau Rhestr Ganolog*");

"class of hereditaments" means those hereditaments to be shown in the central rating list for Wales by virtue of regulation 3(1) of and Part 6 of the Schedule to the Central List Regulations and occupied by the designated person as respects those hereditaments ("*dosbarth ar hereditamentau*");

"designated person" means a person designated by regulation 3(1) of and named in Part 6 of the Schedule to the Central List Regulations; and in relation to a class of hereditaments "relevant designated person" means the designated person in occupation of that class ("*person dynodedig*");

"recalculation factor" in relation to a class of hereditaments means the factor determined in relation to that class in accordance with article 7 ("*ffactor ailgyfrif*");

ystyr "y fformwla safonol" yw'r fformwla  
 $T + U$  ac -

"relevant year" means any year for which a rateable value is to be determined in accordance with this Order and "relevant preceding year" means the year preceding a relevant year ("*blwyddyn berthnasol*");

a. T yw'r swm a bennir mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau yn yr Atodlen; a

"the standard formula" means the formula

$T + U$  where-

(b) U yw'r ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw mewn perthynas â'r flwyddyn berthnasol ("*the standard formula*");

(a) T is the amount specified in relation to a class of hereditaments in the Schedule; and

ystyr "person dynodedig" yw person a ddynodir gan reoliad 3(1) o'r Rheoliadau Rhestr Ganolog ac a enwir yn Rhan 6 o'r Atodlen iddynt; ac mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau, ystyr "person dynodedig perthnasol" yw'r person dynodedig sy'n meddiannu'r dosbarth hwnnw ("*designated person*"); ac

(b) U is the recalculation factor applicable to that class in respect of the relevant year ("*y fformwla safonol*"); and

ystyr "Rheoliadau Rhestr Ganolog" yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999<sup>(c)</sup> ("*Central List Regulations*").

"year" means a chargeable financial year ("*blwyddyn*").

2. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at hereditamentau a feddiennir gan berson yn cynnwys cyfeiriad, yn achos hereditamentau nas meddiennir, at hereditamentau a berchnogir gan y person hwnnw gan ddehongli cyfeiriadau at feddiannaeth yn unol â hynny.

(2) Any reference in this Order to hereditaments occupied by a person includes a reference, in the case of unoccupied hereditaments, to hereditaments owned by that person, references to occupation being construed accordingly.

• Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn, neu yn yr Atodlen, at berson dynodedig wrth ei enw yn gyfeiriad at y cwmni sy'n dwyn yr enw hwnnw ar ddyddiad y cofnodir yr enw hwnnw ar y rhestr ardrethu canolog i Gymru.

(3) Any reference in this Order or in the Schedule to a designated person by name is to the company bearing that name at the date that name is entered in the central rating list for Wales.

## Talgrynnu rhifau

## Rounding of numbers

3. Pan (ar wahân i'r erthygl hon) fydd unrhyw werth ardrethol y penderfynir arno o dan y Gorchymyn hwn yn cynnwys ffracsiwn o bunt-

3. Where (apart from this article) any rateable value determined under this Order includes a fraction of a pound-

a. rhaid talgrynnu'r ffracsiwn i un bunt, os bydd yn fwy na 50c, a

(a) the fraction shall be made up to one pound if it would exceed 50p, and

(b) rhaid anwybyddu'r ffracsiwn os bydd yn 50c neu'n llai.

(b) the fraction shall be ignored if it would be 50p or less.

## Diddymiadau ac eithriadau

## Revocations and savings

4.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) mae Gorchymyn Ymgwymerwyr Dwr (Gwerthoedd Ardrethol) 1994<sup>(a)</sup> wedi'i ddiddymu'n weithredol o 1 Ebrill 2000 i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gymru.

(2) Heb ragfarnu adran 16(1) o Ddeddf Ddehongli 1978, bydd darpariaethau'r Gorchymyn a grybwyllir ym mharagraff (1) yn parhau'n weithredol ar 1 Ebrill 2000 ac ar ôl hynny, at ddibenion y canlynol ac mewn cysylltiad â'r canlynol-

(a) unrhyw newid ar restr mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau a wneir o dan adran 58<sup>(b)</sup> o'r Ddeddf (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) o ran y swm taladwy ar gyfer hereditament am gyfnod perthnasol yn ôl diffiniad yr adran honno.

## Gwerthoedd ardrethol

5. Yn achos pob dosbarth ar hereditamentau, ni fydd paragraffau 2 i 2B o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny a'i werth arderthol fydd-

a. yn y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000, y swm a bennir mewn perthynas ag ef yn yr Atodlen ; a

4.-(1) Subject to paragraph (2) the Water Undertakers (Rateable Values) Order 1994<sup>(a)</sup> is revoked with effect from 1<sup>st</sup> April 2000 in so far as it is applicable to Wales.

(2) Without prejudice to section 16(1) of the Interpretation Act 1978, the provisions of the Order mentioned in paragraph (1) shall continue to have effect on and after 1<sup>st</sup> April 2000 for the purposes of and for purposes connected with-

(a) any alteration of a list in force immediately before 1<sup>st</sup> April 2000; or

(b) any provision made by regulations made under section 58<sup>(b)</sup> of the Act (special provision for 1995 onwards) as to the chargeable amount as regards a hereditament for a relevant period as defined in that section.

## Rateable values

5. In the case of each class of hereditaments, paragraphs 2 to 2B of Schedule 6 to the Act shall not apply in any year beginning on or after 1<sup>st</sup> April 2000 and its rateable value-

(a) in the year beginning on 1<sup>st</sup> April 2000, shall be the amount specified in relation to it in the Schedule; and

- mewn unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 neu ar ôl hynny (yn ddarostyngedig i erthygl 10) y swm a gynhrychir mewn perthynas â'r flwyddyn honno drwy ddefnyddio'r fformwla safonol mewn perthynas â'r dosbarth hwnnw.

## Y ffactor ailgyfrif - dehongli

6.-(1) Yn erthygl 7 mewn perthynas â phob dosbarth ar hereditamentau-

(a) mewn unrhyw fformwla-

"y" yw'r cyfaint perthnasol o ddr mewn perthynas â'r cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben yn union cyn y flwyddyn berthnasol flaenorol;

"Y", yn ddarostyngedig i erthygl 7(3), yw'r cyfaint perthnasol o ddr mewn perthynas â'r cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2000; a

rhif yw "Z" ac iddo'r un gwerth ag "y" yn y flwyddyn flaenorol ddiwethaf y penderfynwyd ar y ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw mewn perthynas ag ef yn unol ag erthygl 7(2); a

(b) in any year beginning on or after 1<sup>st</sup> April 2001 shall (subject to article 10) be the amount produced in respect of that year by applying the standard formula in relation to that class.

## Recalculation factor - interpretation

6.-(1) In article 7 in relation to each class of hereditaments-

(a) in any formula-

"y" is the relevant amount of water in relation to the period of three years ending immediately before the relevant preceding year;

"Y" (subject to article 7(3)) is the relevant amount of water in relation to the period of three years ending on 31<sup>st</sup> March 2000; and

"Z" is a number having the same value as y in the last foregoing year in relation to which the applicable recalculation factor for that class was determined in accordance with article 7(2); and

(b) ystyr "cyfaint perthnasol o ddr" mewn perthynas â pherson dynodedig perthnasol ac unrhyw gyfnod o dair blynedd yw'r cyfaint a gyfrifir yn unol â pharagraff (2).

(b) "relevant amount of water" in relation to a relevant designated person and any period of three years means the amount calculated in accordance with paragraph (2).

2. Y cyfaint perthnasol o ddr mewn perthynas â pherson dynodedig perthnasol ac unrhyw flwyddyn yw'r cyfartaledd blynyddol, dros y tair blynedd o dan ystyriaeth, wedi'i fynegi mewn megalitrau i'r ddegfed ran agosaf o fegalitr, o'r swm a amcangyfrifir yn unol ag is-baragraff (a) wedi tynnu'r swm a amcangyfrifwyd yn unol ag is-baragraff (b); sef-

2. The relevant amount of water in relation to a relevant designated person and any year is the annual average, over the three years being considered, expressed in megalitres to the nearest tenth part of a megalitre, of the amount estimated in accordance with sub-paragraph (a) less the amount estimated in accordance with sub-paragraph (b); that is to say-

(a) y cyfaint blynyddol o ddr yr amcangyfrifir iddo gael ei gyflenwi gan y person hwnnw yn ystod y cyfnod o dair blynedd, sef dr a gyflenwyd i-

(a) the estimated annual average amount of water supplied by that person in the period of three years, being water supplied-

(i) unrhyw berson arall mewn swmp-gyflenwad, sef at ddibenion ffurfio'r cyflenwad sydd i'w roi gan y person hwnnw neu ychwanegu ato; a

(i) to any other person in bulk, that is to say for the purpose of augmenting or constituting the supply to be given by that person; and

(ii) fel arall,

(ii) otherwise,

a thynnu hanner y swm blynyddol cyfartalog o ddr anyfadwy yr amcangyfrifir ei fod wedi cael ei gyflenwi mewn dull heb fod yn swmp-gyflenwad; a thynnu

less half the estimated annual average amount of non-potable water so supplied otherwise than in bulk; less

(b) hanner y swm blynyddol cyfartalog yr amcangyfrifir ei fod wedi'i gymryd neu wedi'i swmp-gyflenwi mewn crynswth yn ystod y cyfnod hwnnw o dair blynedd.

(b) half the annual average amount estimated to have been taken or supplied in bulk during that period of three years.

(3) Os na chyflenwodd y person dynodedig perthnasol ddr drwy gydol unrhyw flwyddyn mewn cyfnod o dair blynedd, bydd paragraff (2) yn gymwys fel pe rhoddid cyfeiriad at y cyfartaledd blynyddol dros y nifer o flynyddoedd y cyflenwyd y dr ynddynt yn lle'r cyfeiriad at y cyfartaledd blynyddol dros dair blynedd; ac at ddibenion y paragraff hwn diystyrir unrhyw doriad dros dro yn y cyflenwad.

(3) Where the relevant designated person did not supply water throughout any year in a period of three years, paragraph (2) shall apply as if for the reference to the annual average over three years there were substituted a reference to the annual average over the number of years throughout which water was supplied; and for the purposes of this paragraph any temporary suspension of supply shall be disregarded.

## **Ffactorau ailgyfrif**

7.-(1) Os, mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau ac unrhyw flwyddyn, bydd y gwerth y gellir ei briodoli i "y" yn llai na'r hyn a gynhyrchir drwy gyfrif yn unol â'r fformwla-

## **Recalculation factors**

7.-(1) Where in relation to a class of hereditaments and any year the value attributable to y is less than that produced in calculating in accordance with the formula-



Y 102

100

("y trothwy uchaf") ac yn fwy na'r hyn a gynhyrchir drwy gyfrif yn yn unol â'r fformwla-

Y 98

100

("y trothwy isaf"), bydd y ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw-

(a) yn y flwyddyn gyntaf o'r fath yn 0, a

(b) yn ystod unrhyw flwyddyn ganlynol, yn ffigur hafal i'r ffactor ailgyfrif cymwysadwy yn unol â'r erthygl hon yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(2) Os, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn, bydd y gwerth y gellir ei briodoli i "y" mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau yn hafal i'r trothwy uchaf neu'n fwy nag ef neu'n is na'r trothwy isaf, bydd y ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw yn ystod y flwyddyn honno yn ffigur a gynhyrchir drwy gyfrif yn unol â'r fformiwla-

("the upper threshold") and greater than that produced by calculating in accordance with the formula-

("the lower threshold"), the recalculation factor applicable to that class-

(a) in the first such year shall be 0, and

(b) in any subsequent such year, shall be a figure equal to the recalculation factor applicable in accordance with this article in the relevant preceding year.

2. Where in relation to any year the value attributable to y in respect of a class of hereditaments is equal to or exceeds the upper threshold or is equal to or lower than the lower threshold, the recalculation factor applicable to that class in that year shall be the figure produced by calculating in accordance with the formula-

T y - Y

1.5Y

(3) Mewn perthynas ag unrhyw ddosbarth ar hereditamentau ac unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar ôl y flwyddyn y bydd paragraff (2) yn gymwys i'r dosbarth hwnnw yn gyntaf, bydd paragraff (1) yn gymwys fel pe rhoddid Z yn lle Y.

### **Achosion arbennig - dehongli**

**8.** Mewn perthynas ag erthyglau 9 a 10-

Ystyr "cynllun Atodlen 2" yw cynllun o dan Atodlen 2 i Ddeddf Diwydiant Dr 1991;

Ystyr "hereditamentau Cymru" yw'r hereditamentau cynllun ac unrhyw hereditamentau eraill a feddiennir gan drosglwyddai cynllun ac a ddangosir yn y rhestr ardrethu canolog i Gymru;

Ystyr "hereditamentau cynllun" yw hereditamentau a drosglwyddir gan gynllun Atodlen 2; ac

(3) In relation to any class of hereditaments and any year beginning after the year in which paragraph (2) first applies to that class, paragraph (1) shall apply as if for Y there were substituted Z.

### **Special cases - interpretation**

**8.** In relation to articles 9 and 10-

"Schedule 2 scheme" means a scheme under Schedule 2 to the Water Industry Act 1991;

"scheme hereditaments" means hereditaments transferred by a Schedule 2 scheme;

"scheme transferee" means a designated person which, in consequence of a Schedule 2 scheme, occupies a class of hereditaments which immediately before the day on which the scheme comes into force are occupied by another designated person; and

Ystyr "trosglwyddai cynllun" yw person dynodedig sydd, o ganlyniad i gynllun Atodlen 2, yn meddiannu dosbarth o hereditamentau sydd, yn union cyn y diwrnod pan ddaw'r cynllun i rym, yn cael ei feddiannu gan berson dynodedig arall.

"Welsh hereditaments" means such of the scheme hereditaments and any other hereditaments as are occupied by a scheme transferee and shown in the central rating list for Wales.

## **Cymhwyso**

**9.** Mae erthygl 10 yn gymwys at ddibenion penderfynu, mewn perthynas ag unrhyw ddiwrnod pan, yn unol â'r Rheoliadau Rhestr Ganolog, y dangosir hereditamentau Cymru a feddiennir gan drosglwyddai cynllun ar y rhestr ardrethu canolog, ar werth ardrethol (cyfan) hereditamentau Cymru.

## **Application**

**9.** Article 10 applies for the purpose of determining, as regards any day on which, pursuant to the Central List Regulations, Welsh hereditaments occupied by a scheme transferee are shown in the central rating list, the rateable value (as a whole) of the Welsh hereditaments.

## **Penderfynu ar Werthoedd Ardrethol**

**10.**-(1) Rhaid i werth ardrethol (cyfan) hereditamentau Cymru fod yn swm hafal i'r cyfanswm o'r symiau y penderfynasid arnynt, ond am gynllun Atodlen 2, ac yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, yn unol ag erthygl 5 fel gwerth ardrethol y dosbarthiadau o hereditamentau sy'n ffurfio hereditamentau Cymru.

## **Determination of Rateable Values**

**10.**-(1) The rateable value (as a whole) of the Welsh hereditaments, shall be an amount equal to the aggregate of the amounts which, but for the Schedule 2 scheme, and subject to paragraph (2) below, would have been determined in accordance with article 5 as the rateable value of the classes of hereditaments which constitute the Welsh hereditaments.

(2) At ddibenion penderfynu ar y ffactor ailgyfrif sy'n gymwysadwy mewn blwyddyn berthnasol, bydd erthygl 7 yn gymwys fel pe anwybyddid, wrth gyfrif y swm a neilltuir i Y neu, mewn achos pan fydd erthygl 7(3) yn gymwys, y rhif a neilltuir i Z, ddr a gyflenwyd gan y trosglwyddai cynllun neu iddo i barti arall i gynllun Atodlen 2 neu ganddo.

2. For the purposes of determining the recalculation factor applicable in a relevant year, article 7 shall apply as if, in calculating the amount assigned to Y or, in a case to which article 7(3) applies, the number assigned to Z, water supplied by or to the scheme transferee to or by another party to the Schedule 2 scheme were ignored.

## ATODLEN

## SCHEDULE

Hereditamentau a feddiennir gan:

Hereditaments occupied by:

Dee Valley Water plc

£1,798,244

Dr Cymru Cyfyngedig

£29,730,304

North West Water Limited

£874,556

Severn Trent Water Limited

£4,048,616

